

Prawf Iaith ar gyfer rhaglenni hyfforddi athrawon Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Enw Dyddiad

Rhaglen Hyfforddi

Mae gennych chwarter awr i gwblhau'r prawf hwn. Rhowch eich ateb yn y golofn 'Atebion' yn unig.

		Atebion	At ddefnydd marciwr yn unig
Enw:	Beth ydy lluosog y canlynol:		
1 athro		athrawon	
2 ysgol		ysgolion	
3 dosbarth		dosbarthiadau	
Ansoddair:	Cywirwch yr ansoddair mewn italig		
1 Maen nhw'n gwisgo siwmpwr <i>melyn</i> .		felen	
2 Merch <i>clyfar</i> yw hi.		glyfar	
3 Mae e <i>mor dda</i> â'i chwaer.		cystal	
Rhifolion a Threfnolion:	Rhowch y rhifau mewn geiriau llawn e.e. tair cath		
1 Rydym yn cael 2 wers Gymraeg heddiw.		dwy	
2 25ain Ionawr ydy diwrnod Santes Dwynwen.		Pumed ar hugain	
3 Roedd e'n 6ed yn y ras.		chweched	
Cysylltair:	Rhowch y cysylltair cywir (a/ac)		
1 Athro athrawes ydy fy rhieni.		ac	
2 Mae'r gwaith cartref mor ddiflas mor anodd.		ac	
3 Es i i'r ysgol ddoe heddiw.		a	
Y Rhagenw:	Rhowch y rhagenw cywir (ei/eu/ 'i/)		
1 Gwelodd y ferch brodyr yn yr ysgol.		ei	
2 Aeth y ddau ffrind i chwarae gyda gilydd.		gyda'i	
3 Byddant yn gweld ffrindiau bob penwythnos.		eu	

Arddodiaid:	Rhowch ffurf gywir y gair mewn italig gan ei dreiglo'n gywir.	
1	Torrodd hi ei bys â <i>cyllell</i> yn y wers technoleg bwyd.	chyllell
2	Cyrhaeddod nhw dros <i>tair</i> awr yn hwyr.	dair
3	Llwyddodd hi i <i>cael</i> graddau gwych yn yr arholiad.	gael
Cwestiynau:	Dewiswch y gair cywir o'r ddau a gynigir mewn cromfachau	
1	(Faint o/Sawl) plentyn newydd fydd yn dechrau yn yr ysgol?	Sawl
2	Yng Nghaerdydd mae e'n byw? (Ydy/Ie)	Ie
3	Gawn ni fynd allan i chwarae? (Cewch/Byddwch)	Cewch
Y Ferf:	Rhowch y ffurf gryno ar y ferf yn lle'r ffurf hir yn y brawddegau hyn. e.e. Mae cwmpawd yn cael ei ddefnyddio. Defnyddir.	
1	Mae'r bai yn cael ei roi ar y disgyblion.	Rhoddir y bai
2	Cafodd yr ysgol ei chau oherwydd yr eira.	Caewyd
3	Mae e wedi methu'r prawf.	Methodd
Byth neu erioed	Dewiswch y gair cywir.	
1	Fyddda i (byth/erioed) bron yn bwyta cinio ysgol.	byth
2	Rwy wedi dweud (byth/erioed) mai fe ydy'r tiwtor gorau.	erioed
3	Dwi (byth/erioed) wedi darllen llyfr mor anodd.	erioed
Geiriau tebyg	Dewiswch y gair cywir.	
1	Clywais (mai/mae) mewn meithrinfa mae hi'n gweithio nawr.	mai
2	Es i (i'w/yw) gweld hi ddoe.	i'w
3	(Mae'n/Maen) nhw'n mynd i barti.	Maen
/30		